

Senedd Cymru
Canllaw cryno i Filiau Preifat

Argraffiad 2

Mai 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Senedd:

www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Yr Uned Cymorth Craffu

Senedd

Bae Caerdydd

CF99 1SN

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
Canllaw cryno i Ffiliau Preifat

Argraffiad 2

Mai 2020



Cynnwys

1. Natur Biliau Preifat	1
2. Y Weithdrefn Graffu	2
Cyflwyno Bil Preifat.....	2
Y Cyfnod Gwrthwynebu.....	3
Yr Ystyriaeth Gychwynnol.....	3
Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor	4
Ystyriaeth Fanwl y Senedd.....	5
Y Cyfnod Terfynol.....	5
3. Pwyllgorau Biliau Preifat	6

1. Natur Biliau Preifat

1. Mae Bil Preifat yn Fil sy'n cael ei hyrwyddo gan unigolion neu sefydliadau y tu allan i'r Senedd (er enghraifft, awdurdodau lleol neu gwmnïau) a hynny er mwyn sicrhau pwerau iddynt eu hunain sy'n fwy na'r gyfraith gyffredinol, neu sy'n gwrthdaro â hi.
2. Mae Biliau Preifat yn wahanol i Filiau Cyhoeddus yn yr ystyr eu bod yn cael eu cyflwyno gan unigolyn neu gorff preifat y tu allan i'r ddeddfwrfa a'u bod yn cynnwys mesurau a geisir er budd preifat i'r hyrwyddwr, sef mesurau y gall eraill eu gwrthwynebu. Y Llywodraeth, Aelodau unigol, neu bwyllgorau sy'n cyflwyno Biliau Cyhoeddus.
3. Mater i hyrwyddwr felly yw gwneud yr achos o blaid Bil Preifat ac mae'r ymagwedd draddodiadol at ddeddfwriaeth breifat yn rhagdybio bod modd gadael y dasg o wneud yr achos yn erbyn y Bil i'r rhai y mae'r Bil yn effeithio arnynt – sef y gwrthwynebwyr. Oherwydd hyn, mae'r trafodion ar Filiau Preifat yn wrthwynebus eu natur.
4. O gofio mai Aelodau o'r Senedd yn unig sy'n cael cymryd rhan mewn Cyfarfod Llawn, rhaid i hyrwyddwyr a gwrthwynebwyr fwydo'u tystiolaeth i'r broses drwy bwyllgorau. Felly, bydd hyd yn oed mwy o bwyslais ar waith craffu gan y pwyllgorau nag yn achos Biliau Cyhoeddus. Mae'r cyfnod pwyllgor yn un lled-farnwrol ac mae'n bosibl i'r broses ei hun gael ei herio yn y llysoedd.

2. Y Weithdrefn Graffu

5. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer craffu ar Filiau Preifat wedi'u cynnwys yn [Rheol Sefydlog 26A](#) o Reolau Sefydlog y Senedd. Mae'r siart llif yn Atodiad A yn dangos elfennau hanfodol y weithdrefn ac amlinellir prif nodweddion y weithdrefn isod. Lle y bo'n bosibl, mae'r weithdrefn ar gyfer Biliau Preifat yn gyson â'r weithdrefn ar gyfer Biliau Cyhoeddus (Rheol Sefydlog 26).

6. Mae'r weithdrefn graffu yn rhoi rôl ganolog i'r 'Pwyllgor Bil Preifat' (gweler Pennod 3) wrth wrando ar wrthwynebiadau, ystyried yr egwyddorion cyffredinol, a gwneud gwelliannau i'r Bil. Mae'r weithdrefn ar gyfer barnu bod yr egwyddorion cyffredinol wedi'u cytuno yn rhoi'r cyfrifoldeb yn gadarn i'r Pwyllgor. Mae gan y Senedd yn y Cyfarfod Llawn rôl ddiwygio fwy cyfyngedig nag yn achos Biliau Cyhoeddus.

7. Mae'r weithdrefn yn adlewyrchu natur led-farnwrol y trafodion ar Filiau Preifat, ac mae'n ceisio sicrhau, lle bynnag y bo modd, fod y penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud gan Aelodau sydd wedi rhoi ystyriaeth ddiuedd i'r holl ddadleuon a thystiolaeth a gyflwynwyd gan yr hyrwyddwr a'r gwrthwynebwr.

Cyflwyno Bil Preifat

8. Y cyfnod cyntaf yn y broses yw bod yr hyrwyddwr yn cyflwyno'r Bil a'r dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil i'r Llywydd cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Senedd gan ofyn i'r Llywydd gymeradwyo'r bwriad i'w cyflwyno i'r Senedd. Ni ellir cyflwyno'r Bil yn y Senedd heb gytundeb y Llywydd. Mae hyn yn debyg i'r weithdrefn ar gyfer Biliau Cyhoeddus.

9. Rhaid i Fil Preifat gael ei gyflwyno yn y Senedd drwy gael ei osod gan yr hyrwyddwr neu ar ei ran. I gael ei gyflwyno, rhaid i'r Bil Preifat fod ar ffurf briodol, a rhaid cael datganiad gan y Llywydd sy'n nodi bod darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i gyd-fynd â'r Bil. Rhaid cael Memorandwm Esboniadol hefyd.

10. Gall Comisiwn y Senedd godi ffi ar yr hyrwyddwr i gyflwyno Bil Preifat.

Y Cyfnod Gwrthwynebu

11. Unwaith y bydd Bil Preifat wedi cael ei osod, rhaid i'r hyrwyddwr gyhoeddi, mewn cyhoeddiadau perthnasol, hysbysiad yn nodi (ymhlith pethau eraill) effaith gyffredinol y Bil, lle y gellir ei archwilio, a sut y gellir gwneud gwrthwynebiadau.

12. Ar y diwrnod y caiff yr hysbysiad ei gyhoeddi, mae cyfnod o 40 niwrnod gwaith ar gyfer gwneud gwrthwynebiadau yn dechrau. Ni chaniateir rhagor o drafodion ar y Bil Preifat tan ddiwedd y cyfnod hwn o 40 niwrnod gwaith.

13. Er mwyn i wrthwynebiad fod yn dderbyniadwy, rhaid iddo gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau y mae'r Llywydd wedi'u cyhoeddi a phennu sut y byddai'r Bil yn cael effaith andwyol ar fuddiannau'r gwrthwynebydd; hynny yw, y byddai'r Bil Preifat yn effeithio ar ei eiddo neu fuddiannau.

14. Ceir darpariaeth ar gyfer derbyn gwrthwynebiadau hwyr, os bydd y Llywydd yn fodlon bod meini prawf penodol wedi cael eu bodloni.

Yr Ystyriaeth Gychwynnol

15. Unwaith y bydd Bil Preifat wedi cael ei gyflwyno, rhaid i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio'r Bil at Bwyllgor Bil Preifat ('y Pwyllgor'), a fydd yn ystyried a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Preifat. Wrth wneud hyn, rhaid i'r Pwyllgor ystyried:

- a yw darpariaethau'r Bil yn golygu ei bod yn briodol i'w ystyried yn unol â'r Rheolau Sefydlog ar Filiau Preifat; ac
- a yw'r dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil ac a osodwyd yn unol â'r Rheolau Sefydlog yn ddigonol i ganiatáu i'r Pwyllgor wneud y penderfyniad hwnnw.

16. Wrth benderfynu a yw darpariaethau'r Bil yn golygu ei bod yn briodol ei ystyried fel Bil Preifat, bydd y Pwyllgor yn rhoi sylw penodol i'r graddau y bydd darpariaethau'r Bil yn effeithio ar faterion polisi cyhoeddus, y graddau y mae ei ddarpariaethau'n diwygio neu'n diddymu deddfwriaeth arall, maint yr ardal y mae'n cyfeirio ati a nifer y buddiannau y mae'n effeithio arnynt.

17. Os bydd y Pwyllgor yn teimlo nad yw'r dogfennau'n ddigonol i ganiatáu gwaith craffu priodol ar y Bil yn y cyfnod hwn, gall ofyn i'r

hyrwyddwr ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n angenrheidiol ym marn y Pwyllgor.

18. Wrth wneud ei benderfyniad, gall y Pwyllgor ystyried natur y gwrthwynebiadau a ddaeth i law, ond ni fydd yn ystyried rhagoriaethau unigol y gwrthwynebiadau yn y cyfnod hwn.

19. Ar ôl i'r pwyllgor gyflwyno'i adroddiad, gall y Pwyllgor Busnes gynnig y dylai'r Senedd gytuno i'r Bil fynd rhagddo fel Bil Preifat. Os caiff y cynnig ei basio, caiff y Bil ei gyfeirio'n ôl at y Pwyllgor Bil Preifat ar gyfer ei ystyried yn fanwl. Os na chaiff y cynnig ei basio, mae'r Bil yn methu.

Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

20. Yn ystod y cyfnod o ystyried y Bil yn fanwl, mae'r Pwyllgor Bil Preifat yn ystyried y gwrthwynebiadau a gyflwynwyd ac yn gwrando ar dystiolaeth gan y gwrthwynebwyr a'r hyrwyddwr. Caniateir i'r hyrwyddwyr a'r gwrthwynebwyr ddod â'u cynrychiolwyr cyfreithiol gyda nhw.

21. Mae gan yr hyrwyddwr ac unrhyw wrthwynebwyr y mae'r Pwyllgor yn barnu bod ganddynt sail gadarn i wrthwynebu hawl i fynd gerbron y Pwyllgor i gael eu clywed. Mater i'r Pwyllgor yw penderfynu beth yw 'sail gadarn'. Mae gan aelod o Lywodraeth Cymru hawl i gael ei glywed hefyd. Gall y Pwyllgor hefyd wrando ar dystiolaeth unrhyw bersonau eraill fel y cred sy'n briodol.

22. Rhaid i'r Pwyllgor osod ei adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil, ac ar y gwrthwynebiadau a gafwyd, gerbron y Senedd. O fewn pum niwrnod gwaith ar ôl i'r adroddiad gael ei osod, gall unrhyw Aelod o'r Senedd gynnig na ddylai'r Bil fynd ddim pellach. Os caiff cynnig o'r fath ei basio, mae'r Bil yn methu. Os caiff cynnig o'r fath ei wrthod, neu os na chyflwynir cynnig o'r fath, bernir bod y Senedd wedi cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Mae'r weithdrefn hon yn caniatáu i'r Senedd wrthod argymhellion y Pwyllgor Bil Preifat ar egwyddorion cyffredinol Bil Preifat, gan gadw goruchafiaeth y Pwyllgor o ran ystyried rhagoriaethau'r Bil Preifat.

23. Heb fod yn gynharach na 25 diwrnod ar ôl i'r Pwyllgor gyflwyno'i adroddiad, ac os bernir bod y Senedd yn cytuno â'r egwyddorion cyffredinol, gall y Pwyllgor ystyried gwelliannau i'r Bil Preifat. Mae

gwelliannau'n cael eu gwaredu yn yr un modd ag yng [Nghyfnod 2 Biliau Cyhoeddus](#).

Ystyriaeth Fanwl y Senedd

24. Bydd y Senedd yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r Bil yn y Cyfarfod Llawn.

25. Yn ogystal â'r meini prawf arferol ar gyfer Biliau Cyhoeddus, yn ystod y cyfnod hwn, bydd gwelliannau'n dderbyniadwy dim ond os ydynt wedi'u bwriadu i egluro geiriad darpariaeth yn y Bil Preifat, yn rhoi ymrwymadau a roddwyd ar ran yr hyrwyddwr yn ystod cyfnod y Pwyllgor o ystyried y Bil yn fanwl ar waith, neu'n rhoi unrhyw argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad yn ystod y cyfnod hwn ar waith.

Y Cyfnod Terfynol

26. Bydd y Cyfnod Terfynol yn cael ei gynnal yn y Cyfarfod Llawn ac mae'n cynnwys cynnal trafodaeth a phleidlais ar gynnig sy'n nodi y dylid pasio'r Bil Preifat.

3. Pwyllgorau Biliau Preifat

27. Oherwydd natur y trafodion ar Filiau Preifat, a'r posibilrwydd cryfach o her gyfreithiol yn erbyn penderfyniad y Senedd, mae aelodaeth o Bwyllgorau Biliau Preifat yn destun rhai cyfyngiadau penodol. Mae cyfyngiadau o'r fath yn gyffredin mewn seneddau eraill.

28. Rhaid i unrhyw Aelod sydd i gael ei enwebu i fod yn aelod o Bwyllgor Bil Preifat roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes am unrhyw fuddiant, gan gynnwys buddiant sydd wedi'i gofrestru o dan [Reol Sefydlog 2](#), a allai fod yn berthnasol i'r ystyriaeth o'r Bil Preifat. Yna, rhaid i wybodaeth am fuddiannau ar wahân i'r buddiannau y mae'n ofynnol eu cofrestru o dan Reol Sefydlog 2 gael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r cynnig i bennu aelodaeth y Pwyllgor Bil Preifat.

29. Ni chaiff Aelod sydd â buddiant cofrestredig o dan Reol Sefydlog 2, a allai fod yn berthnasol i'r ystyriaeth o'r Bil Preifat, fod yn aelod o'r Pwyllgor Bil Preifat.

30. Oherwydd natur unigryw y weithdrefn Bil Preifat, mae'n ofynnol i aelodau o bwyllgor Bil Preifat ddilyn cwrs hyfforddi cyn ymgymryd â'u dyletswyddau.

31. Gan y bydd angen i'r Pwyllgor Bil Preifat weithredu mewn modd lled-farnwrol, mae ystyriaethau eraill i'r Aelodau, fel gwneud datganiad i weithredu'n ddiduedd a'r angen i wrando ar yr holl dystiolaeth a ddarperir.

SIART LLIF PROSES BILIAU PREIFAT

Anfon y Bil a'r dogfennau sy'n cyd-fynd ag ef at y Llywydd i'w gymeradwyo i'w Gyflwyno

Ystyriaeth Ragarweiniol

Penderfyniad y Llywydd. Mynegi'r canlyniad i'r hyrwyddwr

NA →

Dim camau pellach

IE

Cyflwyno'r Bil, gosod y dogfennau sy'n cyd-fynd

Datganiad y Llywydd ar gymhwysedd

Cyfnod gwrthwynebu (40 diwrnod)

Penderfyniad y Pwyllgor Busnes i —
i. cytuno i sefydlu Pwyllgor Bil Preifat (PBP), a
ii. cyfeirio'r Bil at y PBP

Ystyriaeth Gychwynnol

Penderfyniad y Senedd i sefydlu PBP

PBP yn cyfarfod i ystyried —
i. gweithdrefn y Bil, a
ii. cyflwyno'r Bil at y Senedd

Yn llunio adroddiad.

→

Dim camau pellach

Penderfyniad y Senedd a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Preifat

NA

PBP yn ystyried —
i. egwyddorion cyffredinol y Bil Preifat.

IE

→

Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

Cyfnod o saib. Cyfle i—
(i) cyflwyno cynnig na ddylai'r Bil Preifat fynd rhagddo a/neu
(ii) cyflwyno gwelliannau ar gyfer cyfnod nesaf y PBP

Cyfnod i bersonau eraill gyflwyno sylwadau

Os cyflwynir cynnig i'w drafod

Os na chyflwynir

Dadl y Senedd a phenderfyniad ar gynnig na ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Preifat

cynnig i'w drafod

Peidio â

Cytuno

drafod

chytuno

camau pellach

Ystyriaeth Fanwl y Senedd

Penderfyniad y Senedd i sefydlu PBP

→

NA



IE (ac os nad oes her gyfreithiol)

Y Bil yn dod yn Ddeddf

Y Cydsyniad Brenhinol